

Beth ddylech ei wneud os ydych yn darganfod tân?

- Gweithredwch y Pwynt Galw drwy dorri'r gwydr, mae un yn debygol o fod wrth yr allanfa ar bob llawr
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael eich ystafell a'r adeilad, a chaewch y drysau ar eich ôl! Mae'r drysau tân yno i rwystro'r tân a'r mwg rhag lledaenu

Os oes gennych anabledd neu bryderon eraill, gwnewch yn siŵr eich bod yn cofrestru â'r Gwasanaethau Anabledd yn y Brifysgol i drafod eich cynllun personol ar gyfer gadael yr adeilad.


Beth ddylech ei wneud pan glywch y larwm tân?

- Ewch allan o'r adeilad yn ddiogel a phwyllog
- Hysbysu'r man ymgynnull - Peidiwch â hyd yn oed meddwl am aros i gasglu'ch eiddo gwerthfawr (gallwch brynu eiddo newydd, nid yw hynny'n wir amdanoch chi)

Os oes rhywbeth yn eich rhwystro rhag mynd allan, rhowch gynnig ar allanfa arall. Os nad yw hyn yn bosibl, ewch yn ôl i'ch ystafell, caewch y drws, a galwch am gymorth drwy'r ffenestr. Arhoswch yn eich ystafell oni bai bod yr Ymladdwyr Tân yn dweud yn wahanol

Mae larymau
mwg am
ddim ar gael
drwy ffonio:

0800 1691234



Eich Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol
yn cyflwyno

ARWEINIAD I FYFYRWYR AR...



DDIOGELWCH Tân



Chwiliwch amdanom ar **facebook**

Gwasanaeth Tân ac Achub



Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB

Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

[www.facebook.com/
NorthWalesFireService](http://www.facebook.com/NorthWalesFireService)

[www.facebook.com/
MAWWFire](http://www.facebook.com/MAWWFire)

[www.facebook.com/
SWFireandRescue](http://www.facebook.com/SWFireandRescue)

Helo bawb,

Os ydych yn wyneb newydd yn y Brifysgol, neu'n fyfyrwr sy'n dychwelyd am flwyddyn arall, rydym yn gobeithio y cewch amser da gyda ni. Mae hyn yn golygu gadael yn yr un cyflwr iach, di-drawma ag oeddech ar eich diwrnod cyntaf. Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol yn y daflen hon, fel sut i osgoi'r peryglon a'r pethau annifyr sy'n gysylltiedig â thanau, yn ogystal â sut i arbed llawer iawn o arian i ni drwy osgoi galwadau diangen. Felly, gofynnwn i chi dreulio munud neu ddwy'n darllen y llyfryn bach clyfar hwn, sydd wedi'i ysgrifennu'n unswydd ar eich cyfer chi.

Ysmygu

Mae gan eich Prifysgol bolisi DIM YSMYGU caeth, ac mae hynny'n golygu mai DIM OND MEWN MANNAU YSMYGU PWRPASOL y caniateir ysmygu.

Hyd yn oed os ydych yn ysmygu yn y manau hyn, peidiwch â gadael sigarét wedi'i chynnu o gwmpas y lle. Defnyddiwch flwch llwch pwrpasol, ac nid y llawr, a gwnewch yn siŵr ei bod wedi'i diffodd yn llwyr. Mae'n swnio'n amlwg, ond byddech yn synnu.

Credwch neu beidio, er gwaethaf yr holl arwyddion 'Dim Ysmygu', mae rhai'n benderfynol o geisio cael sigarét slei yn eu hystafell. Rydym wedi cael ein galw lawer gwaith i ddifodd tanau a achoswyd gan sigarét ar ôl i fyfyrwr ysmygu yn ei ystafell, heb ddiffodd ei sigarét yn llwyr ac mae wedi dechrau llosgi yn y bin ac wedi cynnu tân (go iawn). Nid yn unig y mae'r bobl hyn yn peryglu eu bywydau eu hunain, ond bywydau pawb arall yn yr adeilad hefyd, yn ogystal â dinistrio'u heiddo â mwg a difrod tân. Nid yw'n beth doeth iawn i'w wneud – meddyliwch am y peth.

Canhwyllau

Mae canhwyllau'n dlws, ac yn creu awyrgylch braf, ond mae gan y Brifysgol bolisi DIM CANHWYLLAU caeth – felly peidiwch â chael eich temptio, gallant fod yn beryglus ac maent yn amharu'n ofnadwy â larymau tân.

Os oes toriad yn y cyflenwad trydan, defnyddiwch dortsh, nid kannwyll. Mae goleuadau argyfwng wedi'i gwasgaru ar hyd a lled y neuaddau, a byddant yn dod ymlaen yn awtomatig os yw'r trydan yn diffodd, felly ni chewch eich gadael yn y tywyllwch.



Coginio

Mae'ch Prifysgol wedi gwahardd defnyddio padelli ffrio dwfn a sosbenni ysglodion.

Os ydych yn barod i ddechrau coginio, gwnewch yn siŵr nad oes dim arall i dynnu eich sylw. Os yw'r ffôn yn canu neu os oes rhywun yn curo ar eich drws neu os oes rhywun am sgwrsio â chi ar Facebook, tynnwch y bwyd oddi ar y gwres, neu os oes rhywun arall yn y gegin, gofynnwch iddyn nhw gadw golwg arno am funud. Peidiwch â gadael iddo losgi, dyna sut mae tanau'n cynnu.

Hefyd, dylech lanhau'r gridyll yn rheolaidd i gael gwared ar olew coginio a gweddillion bwyd, fel briwsion sy'n gallu llosgi'n hawdd.



Galwadau Diangen

Mae gorfod ymateb i larymau diangen yn costio cannoedd o filoedd o bunnoedd y flwyddyn i'r gwasanaeth tân. Yn bwysicach na hynny, mae hefyd yn peryglu bywydau'r bobl sydd ein hangen mewn argyfyngau go iawn. Cewch weld isod beth yw achosion y galwadau diangen

mwyaf cyffredin a sut y gallwch eu hosgoi. Hefyd, os byddwch yn dod ar draws rhywun arall sydd mewn perygl o achosi galwad ddiangen, tynnwch eu sylw at yr wybodaeth hon. Byddem yn ddiolchgar iawn i chi.

**PEIDIWCH Â GWASTRAFFU
AMSER POBL ERAILL**

Y Prif Achosion

Ysmygu:

Peidiwch ag ysmygu yn eich ystafell. Peidiwch, a dyna ddiwedd arni. Byth. Bydd yn gwneud i'ch ystafell ddrewi o hen fwg a bydd yn ychwanegu at y miloedd o alwadau diangen rydym yn eu cael bob blwyddyn.



Coginio diofal:

O'r cinio Sul i Super Noodles, y cam cyntaf yn y broses o fod yn gogydd da yw talu sylw i'ch bwyd, felly peidiwch â mynd i grwydro a gadael iddo losgi.



Chwistrellwyr Gwallt:

Mae chwistrellwyr gwallt yn un o brif achosion galwadau diangen, ac maent yn aml yn gyfrifol am ddifetha'ch diwrnod. Gofynnwn i chi arbed y gost fawr a'r gwaith o orfod ruthro i'ch ystafell i lanhau'r aer ar eich ôl.



Chwistrellwyr aroglau da:

Yn union fel chwistrellwyr gwallt, mae'r rhain hefyd wrth eu bodd yn amharu ar larymau tân, felly peidiwch â defnyddio gormod ar y stwff. Mi fyddem ni'n ddiolchgar, heb sôn am eich ysgyfaint.



Lletemau o dan ddrysau:

Rydym yn treulio llawer o amser yn gwneud yn siŵr bod drysau tân yn gweithio, felly peidiwch â rhoi lletem oddi tanynt i'w cadw'n agored. Maent wedi'u cynllunio i gadw pethau cas fel mwg a tân allan, ac nid i'ch gwylltio chi (wir!).



Stêm o'r Gawod:

Mae cael cawod yn brofiad braf, a byddem yn eich annog i gael un yn rheolaidd. Ond pan fyddwch yn penderfynu ymolchi, cofiwch gau'r drws. Mae cawodydd a setiau radio'n gyfuniad gwyh, ond nid yw stêm o'r gawod a larymau tân yn gyfuniad cystal.



Sythwyr Gwallt:

Mae'r teclynnau hyn wedi'u gwneud i gyrraedd tymheredd uchel iawn, felly cadwch olwg arnynt a pheidiwch â llosgi'ch bysedd, na dim byd arall ychwaith.

